# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 9 IONAWR 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 9 Ionawr 2019.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Derek Butler a Dave Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Cynllunydd; Uwch Gyfreithiwr, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd, a Swyddog Pwyllgor.

Dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr ei fod wedi derbyn hysbysiad fod y Cynghorydd David Mackie yn dymuno siarad ar eitem 6.1 (058296) ar y rhaglen.

## 44. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol ag eitem rhif 6.1 ar y rhaglen – Cais Llawn – Codi 28 o randai 2 ac 1 ystafell wely (ar gyfer pobl dros 55 oed) a 3 Tŷ (gyda 100% o gyfanswm y rhaglen yn Dai Fforddiadwy), mynediad a pharcio cysylltiedig, gan gynnwys dymchwel cyn dafarn y Boars Head Inn, Ffordd Treffynnon, Ewlo, gan fod aelod o'r teulu yn cael ei gyflogi gan un o'r cyd ymgeiswyr.

Eglurodd y Cynghorydd Peers ei fod wedi gwneud cais am ollyngiad o'r Pwyllgor Safonau i'w alluogi i siarad ac aros yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar yr eitem. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu fod ei gysylltiad â'r cais yn un personol yn unig ac nad oedd angen gollyngiad arno. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau hefyd y rheswm am ei gais ac roedd wedi penderfynu na fyddai canlyniad y cais yn cael effaith ar yr aelod o'r teulu i'r graddau fod y cysylltiad yn bersonol ac yn rhagfarnu. Dywedodd y Cynghorydd Peers ei fod felly yn gallu siarad a phleidleisio ar y cais.

## 45. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4366&Ver=4&LLL=1

**46. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2018.

Cywirdeb

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at ei ddatganiad o gysylltiad yn ymwneud ag eitem 6.1 ar y rhaglen a gofynnodd am i'r cofnodion gael eu diwygio i adlewyrchu ei fod wedi dweud y byddai'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth ac na fyddai'n pleidleisio ar yr eitem.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

**47. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Ni chafwyd unrhyw argymhellion gan swyddogion.

**48. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**49. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 5 aelod o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 2.25 pm)

..................................................

**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 9 IONAWR 2019**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058296 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais llawn - Codi 28 o randai 2 ac 1 ystafell wely (i rai dros 55 oed) a 3 tŷ (gyda 100% o gyfanswm y rhaglen yn Dai Fforddiadwy), mynediad cysylltiedig â pharcio gan gynnwys dymchwel tafarn flaenorol y Boars Head Inn, Ffordd Treffynnon, Ewlo. | Siaradodd Mr B Thornley, yr asiant, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Joyce Angell, ar ran Cyngor Cymuned Penarlâg, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Dave Mackie, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Fod cais cynllunio yn cael ei roi, yn ddibynnol ar naill ai fod yr ymgeisydd yn mynd i Rwymedigaeth Adran 106 neu Ymgymeriad Unochrog, ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog a gan gynnwys amod 3 sef cadw'r plac hanesyddol. |
| 059026 | Cyngor Cymuned Argoed | Cais Llawn - Codi 59 o anheddau a gwaith cysylltiedig yn Fferm Issa, Ffordd Bryn, Bryn y Baal, Yr Wyddgrug. | Siaradodd Mr. R. Madders yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr S. Andrew, yr ymgeisydd, o blaid y cais. | Fod cais cynllunio yn cael ei roi, yn ddibynnol ar fod yr ymgeisydd yn mynd i Rwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |